Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Chwilio am Swydd

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 8 (neu'n gynt os defnyddir y cwestiynau symlaf yn unig).

Dull

Gweithgarwch da ar gyfer dechrau sgwrs. Rhowch y llun a ddarperir (neu unrhyw lun addas o gylchgrawn) ar fwrdd o flaen y myfyrwyr. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5 ac esboniwch fod y cymeriad yn chwilio am waith.
Yn gyntaf, mae'n rhaid i bob grŵp roi hunaniaeth i'r cymeriad.
Be' ydy ei enw o? /Be' ydy ei henw hi?
Lle mae o'n byw?/Lle mae hi'n byw?
Lle mae o'n gweithio?/Lle mae hi'n gweithio?
Faint ydy ei oed e?/Faith ydy ei hoed hi?
Be' mae o'n hoffi wneud?/Be' mae hi'n hoffi wneud?
Be' mae o'n hoffi fwyta?/Be' mae hi'n hoffi fwyta?
Ydy o'n briod?/Ydy hi'n briod?
Oes gynno fo sgiliau?/Oes gynni hi sgiliau?
Be' ydy'r sgiliau?
Wedyn, dylai'r grŵp feddwl am swydd neu swyddi addas.
Be' am…?
Y gwaith gorau i Mr Jones ydy…..
Ar ddiwedd y sesiwn, dylai pawb godi a mynd i drafod syniadau'r grwp â chynrychiolwyr y grwpiau eraill.

Taflen y Tiwtor

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Chwilio am Swydd

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Chwilio am Swydd